YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODION Y GOLYGYDD.
RHAI O HELYNTION HEN BREGETHWR A'I GYFOEDION.
ADOLYGIADAU.
ATGOFION.
PRIODASAU.
MARWGOF.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxvi

Rhag. 1936

Rhif 12

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys iimrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVI. RHAGFYR, 1936. RHIF 12.

" DOS I'TH YSTAFELL ——— ."

DUW sydd berffaith ei ffordd ; gair yr Arglwydd sydd wedi ei buro : tarian yw efe i bawb a ymddiriedant ynddo.—*Salm 18 : 30.*

* * *

CEISIA am Dduw yn yr oriau a ymddengys i ti yn weigion ac fe'u llenwir, oherwydd fe'th gynhelir ynddynt gan Dduw ei hun.—FENELON.

* * *

FFYDD ydyw'r gallu i lynu wrth Nerth Daionus sydd yn apelio at ein hunan gorau ac uchaf ac nid at ein hunan isel gwael.—MATHEW ARNOLD.

* * *

I FOD yn iach ac yn gyfan rhaid i ni fyw bob yn ail gyda'n cyddynion a'r byd, a chyda ni ein hunain a chalon y bydysawd.—ALGER.

* * *

NID yw Duw yn gofyn i neb a ydyw *yn fodlon* byw. Nid oes ddewis. Yr unig gwestiwn ydyw *sut*.—H. WARD BEECHER.

* * *

PECHIR pan y gadewir i bethau isel, er cystled y gallant fod ynddynt eu hunain, i sefyll ar ffordd pethau uwch.—RUFUS ELLIS.

* * *

I'R hwn sydd yn rhodio yn yr ysbryd mae popeth allanol yn gymorth ysbrydol. Mynega ysbryd Duw ei hun, nid yn unig o'n mewn ond yn a thrwy y pethau gyfarfyddwn ar ein llwybrau cynefin ac yn ein cartrefi.—W. MOUNTFORD.

* * *

DYRO i ni o Dduw fraint dedwyddwch mewnol a'r sirioldeb sydd yn canlyn o fyw yn agos atat Ti. Adnewydda ynnom beunydd yr ysbryd llawen a phâr i'th dragwyddol ysbryd dy hun drigo yn ein heneidiau, nes y llenwir pob congl o'n calonnau â goleuni a gorfoledd. Ac o'n bod ni yn wrol bob amser bydded i eraill gael adferiad bywyd yn ein cwmni ni fel y gallont gyfarfod â phopeth a ddaw gyda chalon lon a dedwydd. I ti y byddo'r diolch am bob braint.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

PROFFWYDI Y DYDDIAU DIWEDDAF.

TYBIR yn gyffredin i oes y proffwydi fyned heibio ers tro. Nid yn aml heddiw y clywir llais a ddywed beth sydd i ddigwydd mewn hanner can mlynedd i grefydd neu wareiddiad neu genedl gyda'r osgo awdurdodol a'n hadgofia o'r hen broffwydi Iddewig a'u " Medd yr Arglwydd ". Ond wele ysgrifennydd adnabyddus a dylanwadol,—" Ilico " yn y " British Weekly " yn cynorthwyo y cylchgrawn pwysig hwnnw i ddathlu ei hanner can mlwyddiant drwy ddweyd, " Nid oes ddyfodol i Belagiaeth ac Undodiaeth ".

Gwadu athrawiaeth Pechod Gwreiddiol oedd heresi Pelagius. Mae Seicoleg wedi gwneud llawer o'r hen ddadleuon hynny yn ddi-ystyr a newydd i Undodiaid fydd clywed mai Pelagius ydyw eu tad ysbrydol. Er hynny nid oes amheuaeth nad yw " Ilico " yn dangos yn weddol gywir sut y mae y gwynt diwinyddol yn chwythu heddiw. Daw cryn dipyn o dystiolaeth o amryw gyfeiriadau mai diwinyddiaeth Karl Barth sydd gryfaf ei dylanwad heddiw ar feddyliau myfyrwyr diwinyddol ac mae Barth fel y gwyddis yn gwneud rheswm ac ewyllys dyn yn ddi-ddim. Nid oes iechydwriaeth ond drwy ymyraeth uniongyrchol gallu a gras Duw. O ochr dyn yr hyn sydd yn angenrheidiol ydyw ymwybyddiaeth o bechod a chydnabyddiaeth o wendid a di-ddimdra hollol. Dyma mewn gwirionedd sydd ym meddwl " Ilico " pan y dywed mai y ffurf a gymer y diwygiad Cristionogol heddiw ydyw myned yn ôl at Galfin a Wesley i chwilio am ffynonell adferiad. Nid oes sôn am fyned yn ôl i'r efengylau ac at ddysgeidiaeth yr Iesu ei hun.

Yn ddiamau rhyw grefu am awdurdod sydd yn nodweddu osgo pobl yn eu crefydd ac yn eu gwleidyddiaeth heddiw. Yr un peth yn y gwraidd ydyw diwinyddiaeth Barth a'r philosophi sydd wedi dyrchafu Hitler yn unben yr Almaen a gwneud caethion meddyliol ac ysbrydol o genedl gyfan. Cofir wrth gwrs fod llawer wedi dewis marw yn hytrach na goddef y gaethiwed hon. Ac mae dweyd nad oes ddyfodol i Belagiaeth ac Undodiaeth yn golygu nad oes sail ac na fu sail erioed i'r ffydd yng ngwerth cynhenid a phosibiliadau tragwyddol yr enaid dynol—y ffydd sydd wedi adeiladu y gwareiddiad gorllewinol a rhoddi i ni bopeth a gyfrifir o werth gan ddyn gwareiddiedig. Rhaid ateb " Ilico " a phawb o'i hil drwy ddweyd—Os nad oes ddyfodol i'r hyn sydd yn hanfodol mewn Undodiaeth, sef y ffydd fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw ac am hynny mai rheswm a chydwybod y dyn ei hun ydyw'r

awdurdod olaf, nid oes ddyfodol i Gristionogaeth a gwareiddiad. Os oes raid sôn o gwbl am fyned yn ôl, rhaid myned yn ôl nid at Sant Awstin na Chalfin na Wesley na Barth ond at Iesu ei hun, ac mae myned yn ôl at Iesu yn golygu mynd ymlaen yn ei ysbryd ef i wybodaeth helaethach o ewyllys Duw a buddugoliaeth lwyrach dros reddfau a phwerau anianol.

Cydnabyddwn yn rhwydd fod rhyw ysfa am awdurdod yng nghalonnau dynion o deimlo ohonynt efallai mai golwg dost sydd heddiw ar y gwareiddiad adeiladwyd ar ffydd yng ngallu a daioni dyn. Efallai fod cymaint o arwyddion yng Nghymru ag yn unman arall o'r dyhead hwn, ac fe glywsom rhyw sibrwd drwy y cymoedd yn awr ac yn y man mai yr unig eglwys sydd yn cynhyddu heddiw ydyw'r Eglwys Babaidd. Ond ar waethaf hyn, doeth fuasai i olygydd yr Ymofynnydd Seisnig geisio darganfod rhagor o ffeithiau a ffigyrau am y cynnydd hwn cyn cyhoeddi ohono yr ysgrif gan Mr. Walter Lloyd yr wythnos ddiweddaf ar " Yr Eglwys Babaidd yng Nghymru ". Diddorol fyddai gwybod pwy ydyw'r ysgrifennydd hwn sydd yn siarad mor awdurdodol am feddwl ag ysbryd y Cymro ac yn proffwydo mor hyderus mai o dan iau yr offeiriad y bydd Cymru hyd fachlud ei haul. Diddorol ydyw i ni weled ein hunain am dro drwy spectol y gŵr dieithr ond gwybodus hwn.

Ysgrifennodd ei lith meddai ef yn sŵn gosber genid mewn eglwys Babaidd wyngalchog yn rhywle ac mae hyn yn peri iddo ddweyd wrth ddarllenwyr yr " Inquirer " fod bryniau Cymru yn atseinio gan fiwsig Rhufain. Mae'r Cymro, yn ôl Mr. Lloyd yn hoff o ymffrostio wrth ei gymydogion Seisnig nad ydyw yn credu mewn Duw mwyach a'i fod wedi taflu hen ofergoelion y capeli dros y bwrdd. Ond ni all y Cymro fod yn anffyddiwr er iddo ddianc o gorlan y capel am fod atgofion yn llechu yn ei is-ymwybyddiaeth am y Derwyddon fu yn dychrynu ei gyndeidiau ag athrawiaethau am drawsfudiadau eneidiau ! Oddiar dyddiau cynhyrfus y Rhyfel Mawr bu Cymru yn aeddfed i dderbyn ffydd newydd. Daeth Eglwys Rhufain i lanw y bwlch. Mae gan y Cymro gariad barbaraidd at y prydferth ac mae *lliw* ar y ffydd Gatholig. Am ddwy ganrif bu y Cymro, dan ddylanwad ei gynghorwyr ysbrydol (Methodistiaid yn fwyaf neillduol, mae'n debyg), yn credu fod sancteiddrwydd yn golygu dillad duon a hetiau celyd a chapeli hyll, ond o dan ddylanwad Comiwnistiaeth a'r sinema (!) daeth chwyldro. Ni all y Cymro er hynny fyw heb fwyd i'w enaid er i foderniaeth chwalu yr hen gredoau. Daeth y Pabyddion yn ateb i'w weddi.

Mae yna ryw gymaint o ddyryswch, gallem feddwl, ym meddwl Mr. Lloyd ynglŷn â'r pregethwyr Methodistaidd. Greddf ei gyndeidiau Pabyddol sydd yn llefaru drwy'r pregethwr Methodist pan yr amddiffyna ei athrawiaethau gyda sêl tanllyd, ond mae'r pregethwyr Methodist (a'r Bedyddwyr hefyd y tro hwn) yn mynegu

ffeithiau yn rhy blaen. Ni fedrant, fel yr offeiriad Pabaidd, wisgo eu nheges mewn rhetorig melys, (a dyma y peth sydd yn toddi calon y Cymro).

Mae y Blaid Genedlaethol wedi adfer yr hen iaith i'w phwysigrwydd blaenorol i ryw fesur, ac mae'r Eglwys Babaidd wedi manteisio ar hyn, a bydd offeiriaid Pabaidd o hyn allan yn medru siarad â'r Cymro yn ei iaith ei hun. (Ni fedrodd Methodist na Bedyddiwr nac unrhyw druan arall o unrhyw enwad wneyd hyn o'r blaen mae'n debyg). O gael yr offeiriad Pabaidd i siarad wrtho yn ei iaith ei hun terfir pob amheuaeth yng nghalon y Cymro.

Pechod fyddai amharu ar ddigrifwch y sylwadau hyn drwy geisio bod o ddifrif i'w hateb. Chwilied y darllenydd ei isymwybyddiaeth ei hun, ac o freuddwydio o hono ryw noson mai ci neu gath ydyw gwybydded fod yr hen Dderwyddon er wedi marw eto'n fyw. Gwybydded pob Cymro hefyd, ar waethaf hud y sinema ac hyawdledd y Comiwnist nad oes orffwys i'w enaid ond yn sŵn rhetorig melys yr offeiriad Pabaidd fedr siarad Cymraeg, ac na fedrir bodloni ei ddyhead barbaraidd am brydferthwch ond gyda gwyngalch yr eglwys Gatholig yn y cwm.

Y Bywyd Cristionogol a'r Byd Hwn.

Ca pob llyfr newydd gan y Deon Inge groesaw gwresog a chyffredinol, a rhoddir canmoliaeth uchel i'w lyfr diwethaf—sydd yn dwyn y teitl " Rhyddid, Cariad a Gwirionedd ". Casgliad ydyw o bethau gorau llawer o feddylwyr y bywyd Cristionogol. Yn y rhagymadrodd i'r llyfr mae Dr. Inge yn trin unwaith eto y berthynas rhwng Cristionogaeth a phroblemau cymdeithasol. Atgofir ni o'r newydd mai cymhelliadau moesol a delfrydau sydd yn bwysig i'r Cristion ac na ddylai gymeryd yn ganiataol mai ei olygiadau gwleidyddol ef ac eiddo ei gyfeillion yn unig sydd yn deilwng o'i galw yn economeg neu wleidyddiaeth Gristionogol.

Ond atgofir ni hefyd o ffaith arall na sonir am dani yn aml iawn. Er mai yn ysbryd yr efengylau y dylem ddyfod at ein problemau cymdeithasol, nid eu rhagolwg hwy ar y dyfodol ydyw ein rhagolwg ni. Yn nyddiau bore Cristionogaeth, disgwylid am ail-ddyfodiad buan Crist mewn gogoniant. Heddiw, gwyddom fod oesoedd hirion eto o'n blaen. Er i gynnydd fod yn araf gwyddom fod o'n blaen ddigon o amser i gynnydd, ac mae hyn yn galw ar y Cristion i fagu uchelgais i baratoi pethau gwell ar gyfer ei ddisgynyddion pell. Dyna gymhelliad moesol na allai y Cristionogion cyntaf wybod am dano.

Mae'n ymddangos fel pe bae Dr. Inge yn fwy parod nag y bu i gydnabod fod gwerth, o safbwynt Cristionogol, i ymdrechion diwygwyr cymdeithasol i wella'r byd sydd yr awrhon.

Rhai o Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion.

VI.

Rhai Nodweddion Personol.

Un o nodweddion amlwg fy nhad oedd prydlondeb mewn gwasanaethau. Dechreuai'r oedfa i'r funud. Os na byddai digon o bobl yn bresennol i ganu'r emyn dechreuol nid oedai i ddisgwyl dyfodiad eraill ond cychwynnai'r gwasanaeth drwy ddarllen pennod. Cofiaf ryw dro fyned gydag ef i gwrdd y bore ym Mrondeifi. Pan oeddem ar bont Dulas—rhyw ddau can llath o'r capel—dyna gloc y dre yn taro deg o'r gloch ac meddai'm cydymaith " nid wyf yn cofio faint o flynyddoedd sydd er pan fum mor ddiweddar a hyn o'r blaen ". Yr oedd hefyd yr un mor brydlon yn gorffen gwasanaeth. Ond efallai fod y nodwedd o brydlondeb yn un o nodweddion ei oes. Beth bynnag cofiaf yn dda fod rhai o'r hen bobl yn arfer cyrraedd y capel ymhell cyn amser y gwasanaeth ac, os byddai'r tywydd yn braf, yn aros yn y fynwent hyd amser dechrau'r cwrdd.

Pan fyddai yn myned oddicartref i bregethu yr oedd yn rhaid dechrau'r daith yn brydlon—yn wir ynghynt o lawer nag y gofynnai'r amgylchiadau. Pan eid, er enghraifft, i Bwlch-y-Fadfa yr oedd yn rhaid cyrchu'r poni a'r trap yn fore iawn a chychwyn hefyd fel nad allai dim rhwystr ein lluddias i gyrraedd mewn pryd. Ni wrthwynebwn o gwbl i'r trefniant canys digon o iawn oedd teithio'n hamddenol ar fore o haf heibio i Flaencwrt a Chastellhywel cyn bod y byd yn effro. Am ran helaeth o'r daith ni welid neb ond ambell i fugail neu ffermwr yn troedio'r caeau i edrych am ei anifeiliaid.

Y lle cyntaf a dynnai ein sylw oedd hen Blas Ffynnon-Bedr, gynt breswylfod John a Syr Herbert Lloyd, canolfan, ar un adeg, rhwysg a mawredd bydol, lle hefyd y gorthrymid y gwan. Y mae bellach yn ei bwll a dim ohono'n aros ond rhai magwyrydd—a'r hen ffynnon odidog a roddodd i'r lle ei enw. Am fawredd y plas hwn y canodd Dafydd Dafis, Castellhywel,—

" Bu frwd haf, bu hyfryd des,
Mawrhydri yma a rhodres."

ac am ei gwymp fe eiliodd englynion fel hyn,—

" Glesni, du oerni daw arnoch ;—galar
Ac alaeth rêd trwyddoch,
Ac wylo wnewch pan gweloch
Feini'i mur yn gafnau moch."

" Troer ei chain lydain aelwydau—'n erddi,
A gwyrddion weirgloddiau ;
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau."

" Daw cwdwm wedi codiad ;—a gwywlyd
Y gwelwn ddadfeiliad
Yn dilyn pob adeilad
Nes ei roi a'i droi dan dra'd."

Yna i Lanwnnen, lle unwaith y cadwai Dewi Hefin ysgol, ac yn eu tro heibio i Gapelygroes, Bodawel, Blaenwaun, Blaencwrt, y Gors Goch a Chastellhywel—oll a'u diddordebau gwahanol. Ym Modawel y treuliodd y Parch. D. Evans, Cwmiago, ran o fore ei oes. Cartref Dafydd Jenkins, un o ffyddloniaid Capelygroes, oedd Blaenwaun. Magodd efe deulu mawr ac aeth dau o'r bechgyn, Enoch a James, i'r weinidogaeth. Ym Mlaencwrt y bu Thomas Davies, nai i'r Parch. John Davies, Tancoed, a thad y Dr. D. J. Davies, Aberystwyth, yn byw am flynyddoedd hirion. Pan oeddwn yn grwt clywwn y coleddai Thomas Davies syniadau am gyflyrau cymdeithasol a gwahaniaethau anweddol rhwng tlawd a chyfoethog a wnai gredid i'r dyddiau hyn. Y mae'n awr yn byw yn Aberystwyth ac wedi cyrraedd yr oedran mawr o 89 mlwydd. A gaf i, fel crwtyn gylch trigain oed, ddymuno iddo hwyrddydd hir a hapus, gan gofio ei fod ef a'i fab yn ei gwahanol gylchoedd wedi sefyll yn gadarn ac anrhydeddus dros y gwir a'r da? Yn yr un ardal y treuliodd y Parch. John Evans, B.A., Newchurch-in-Rossendale, ei ieuenctid.

Wedi gadael dyffryn ffrwythlon y Deifi gwelid ar y ffordd lawer o gors a gwaun. Os gwael y tir yn anianol cynhyrchodd gedyrn o ddynion. Tuedda daear frâs fagu lleithder yn ei chynnyrch ond gwydn ydyw pob dim a dyf ar gors ; felly hefyd ddynion yn ôl eu bro. Fe ga dynion ar dir brâs eu rheidiau yn ddiymdrech. Ni raid iddynt ymarfer na gewyn na dychymyg. Fe fâg fraster feddalwch ond tir anhywaith ac anhydrin a feithrin gryfder.

Wedi cryn deithio deuid i Gastellhywel, â'r hwn y cysylltir dau enw teilwng. Yno wrth gwrs y cartrefai cyfieithydd enwog Marwnad adnabyddus y bardd Saesneg Gray ac y cadwai ei ysgol ; yno hefyd y ganwyd y meddyg adnabyddus Abel Evans.

Fe gyrhaeddid y Bwlch wrth gwrs ymhell cyn amser ; eid i'r tŷ capel ac yno cynhullai hefyd nifer o frodyr a chwiorydd prydlon eraill. Yn eu plith byddai John Jones, Rhydsais (tadcu'r Parch. J. Marles Thomas, M.A.). Wedi siarad am dro gwelid John Jones yn tynnu allan ei oriawr anferth i sicrhau'r amser. Efe oedd y *time-keeper* a'i air yn ddeddf. Pan ddywedai efe ei bod yn bryd cychwyn y gwasanaeth eid i'r capel ar unwaith.

Yr oedd pobl Bwlch-y-Fadfa yr amser hwnnw yn hynod o roesawgar, a dilys yw y parhant felly o hyd. Ryw dro yr oedd pawb bron wedi gofyn i'r pregethwr fyned i ginio ond myned a wnaeth heb ymborthi. Ar y gwastadedd cyn disgyn at Gastell-hywel dywedodd rywbeth yn debyg i hyn ym mherthynas i garedigrwydd pobl y Bwlch—" Rhyfedd fel y mae pethau wedi newid ! Cofiaf am danaf yn dod yma yn ddyn ifanc ac yn cael mynd ar fy nghythlwng heb neb yn gofyn lle y cefais fwyd ddwetha na lle y bwriadwn gael fy mhryd nesaf."

Maddeued y darllenydd i mi am grwydro : y mae un peth yn arwain dyn bron yn ddiarwybod i beth arall.

Nodwedd arall ynddo oedd diffyg uchelgais. Ei duedd gynhenid oedd ymneilltuo. Nid ydwyf yn siwr na bu'r gwendid hwn yn fwy o rwystr iddo nag unrhyw gynneddf arall yn ei gyfansoddiad. Heblaw fy sylw fy hun y mae gennyf dystiolaeth eraill i hyn. Ni wthiai ei hun i amlygrwydd : nid oedd a fynno a gorgyhoeddusrwydd. Anaml yr âi o'i wirfodd i'r sêt fawr mewn capel dieithr : safai hefyd yn yr encilion rhag gofyn iddo ddechrau cwrdd arbennig. Pan oedd yn dechrau llefaru mewn capel heblaw ei eiddo ei hun gwelid yn fynych gryndod amlwg yn ei lais. Yr oedd yn well ganddo ddarparu dwy bregeth erbyn y Sul na phregethu mewn unrhyw fan dieithr.

Yr oedd ynddo gyfuniad gweddol gytbwys o'r difrif a'r digrif. Yr oedd o ddifrif yn ei argyhoeddiadau ond gallai hefyd fod yn afieithus. Gyda'i gyfoedion yn y weinidogaeth yr oedd yn fwyaf cartrefol a chyda hwy teimlai at ei ryddid i " dynnu coes " brawd hyd yr eithaf. Yn eu cymdeithas hwy yr oedd yn hoff iawn o adrodd difyrion bore oes—direidi yn y coleg, profiadau doniol ar deithiau pregethu, etc.—yn enwedig os y byddai ergyd ynddynt at un o'r gwyddfodolion. Y mae un peth da i'w ddweud am y gweinidogion hyn : yr oeddent yn ffranc iawn tuag at ei gilydd ac ni welai neb chwith am ddim a ddywedid.

Golygiadau Diwinyddol.

Yn ei olygiadau diwinyddol yr oedd gweinidog Brondeifi, fel y disgwylid oddiwrth ei gysylltiadau enwadol, yn fwy rhydd na'i gydweinidogion yn y dre. Ryw haf tybid fod y tywydd yn anffafriol a phenderfynwyd cynnal " Cwrdd Ymostyngiad " yn Llanbedr. Bore'r dydd penodedig cyfarfu ag un o weinidogion y lle a gofynnodd hwnnw iddo a oedd yn dyfod i'r Cyfarfod Ymostwng yn y prynhawn. Atebodd yntau nad oedd, a'i fod yn ystyried mai hwn oedd y peth mwyaf gwaradwyddus a oedd wedi digwydd yn nhre Llanbedr er pan ddaeth efe yno ac fod ganddo ef ddigon o ffydd yn y Tad gorau y gwnai yr hyn a oedd yn orau er lles ei blant.

Ysbrydegaeth.

Mor gynnar ag 1889—ryw 47 mlynedd yn ôl—teimlai fy nhad ddiddordeb mewn Ysbrydegaeth, ac er na chofiaf i mi erioed ei glywed yn ei alw ei hun yn ysbrydegwr cofiaf am dano yn pregethu ar y pwnc ar ôl iddo'r Sul blaenorol gyhoeddi ei fwriad. Mewn angladdau hefyd ceid arwyddion mynych o'i ogwydd.

Canu'r Cysegr.

Cydnabyddid fod canu da ym Mrondeifi a cheir fod tôn gynulleidfaol neu ddwy ar enw Daniel Jones (darlun), Barley Mow, ac hefyd, mi gredaf, Edward Williams (Edward 'Rhwper). Evan Dafis (darlun), Blaenwaun, a Daniel Dafis, Lletylluwch, a arweiniai yng Nghaeronnen. Ond efallai mai'r cerddor mwyaf adnabyddus ohonynt oll oedd William Hefin Williams (darlun). Cyfansoddodd efe amryw o donau cynulleidfaol da—tonau a mynd ynddynt. Cadwant ei enw'n fyw am flynyddoedd wedi ei farw. Y mae'n debyg iddo ef wneud mwy na neb yn ei ddydd i wella cerddoriaeth lais yn Llanbedr. Heblaw bod yn gyfansoddwr da yr oedd yn arweinydd llwyddiannus, a bu cor y dref yn hir o dan ei ofal.

Dirwest.

Yr oedd fy nhad yn llwyrymwrthodwr selog, yn perthyn i'r Temlwyr Da—bu Teml lewyrchus iawn yn Llanbedr am flynyddoedd—ac yn areithio nosau Sul ar Ddirwest. Tystiai iddo yn ei flynyddoedd cyntaf gael gofid mawr gan rai a oedd yn ysglyfaeth i'r ddiod, a gwelodd ei hanraith a'i difrod yn ei dylwyth ei hun.

Un o bechodau'r gorffennol oedd diota i ormodedd. Tair ysgol a oedd i'r cyffredin—y dafarn, siop y crydd a'r efail—ac yn y blaenaf trinid diwinyddiaeth a gwleidyddiaeth uwchben y chwart cwrw. Ond nid edrychid ar yfed yn yr un wedd ag y gwneid yn ddiweddarach. Yn wir yr oedd rhai eglwysi yn darparu " lywens " o gwrw i'r pregethwr i'w yfed cyn dechrau'r gwasanaeth. Ni chlywais fod hynny yn arferiad yng Nghaeronnen ond yr oedd yn Llwynrhydowen fel y gwelir oddiwrth yr hanesyn canlynol.

Ryw ddydd Sul eithafol boeth yr oedd y Parch. John Dafis, Castellnewydd Emlyn, yn cerdded i wasanaethu yn y Llwyn. Â'i got ar ei fraich yr oedd yn chwys babwyr pan gyrhaeddodd y capel dipyn yn ddiweddar. Yr oedd un o'r brodyr blaenllaw wedi ei gyffroi'n gymaint gan y disgwyl fel y gomeddodd i Mr. Dafis i fyned am ei ddiod. Un penboeth oedd y dyn hwn heb ddim cydymdeimlad a brawd yn ei adfyd.

Ni theimla'r cyffredin heddiw bwysigrwydd pwnc y ddiod yn yr oes o'r blaen. Yn hanner gyntaf y ganrif ddiwethaf nid yfid

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

GOLYGYDD :—

Y Parch. T. L. JONES, Caerdydd.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFROL 36.
1936.

LLANDYSUL :
Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer.



Dr. T. J. HUGHES, Castelldu, Llanwnnen.
[*Am y cyfeiriad ato gwel rhifyn Tachwedd, 1935*]

DANIEL JONES, Barley Mow.

EVAN DAVIES, Blaenwaun, Cellan.

WILLIAM HEFIN WILLIAMS.

CYNNWYS

Adran yr Ysgol Sul, 28, 91, 172.
Adolygiadau, 28, 112, 186.
Atgofion, 188.

Babouska, 6.
Barddoniaeth,—
Blewyn Gwyn, 174.
Cyfieithiad, 157.
Dechreu'r Flwyddyn, 25.
Trosiad o Daniel Ddu, 27.
Trysorau, 27.

Cegin y Cilie, 54, 71.
Clofeli, 138.
Coleg Harlech, 106.
Cysgod a Sylwedd, 40.
Cristionogaeth Ryddfrydig Heddiw, 124.
Cymanfa Ganu 1936, 110.
Cyrddau Sefydlu yng Nghefncoed, 107.
Cyrddau Sefydlu yng Nghapelygroes a Chribin, 171.
Cyrddau'r Pasg, 75.
Cyrddau Blynyddol, 122.
Anerchiad y Llywydd, 150.
Cyrddau yr Hydref, 173.

Daniel Owen, 85.
Deio'r Glyn, 104.
Dillad Parod, 168.
Dos i'th Ystafell, 1, 19, 33, 49, 65, 81, 97, 113, 129, 146, 161, 177.
Drygau'r dref a'r modd i'w symud, 20.

Hen Seintiau fy Mebyd, 102.
Hunangofiant Robin Goch, 37.

Liberal Christianity and Modern Criticism : Iesu Hanes a'r Beirniad diweddar, 82.

Marwgofion, 14, 29, 45, 61, 79, 93, 111, 127, 144, 158, 172, 191.

Nodion yr Eglwysi, 16, 30, 46, 80, 96, 111, 128, 137, 144, 159, 175, 191.
Nodiadau'r Golygydd, 2, 34, 50, 66, 130, 178.

Pa beth a gred yr Iddewon, 24.
Priodasau, 14, 61, 92, 144, 158, 171, 190.
Pwy oedd Confucius, 26.
Pwyllgor y Pasg, 77.
Pwyllgor Blynyddol, 143.
Pwyllgor yr Hydref, 174.

Rhai o Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion, 98, 114, 133, 146, 162, 181.
Rhodd, 118.
Rhydyparc, 119.

Tipyn o Bopeth, 58.

Urdd y Benywod, 11, 90, 125, 175.

Y Genhades o'r India bell, 43.
Y Goleuni a Ballodd, 141.
Ymweliad yr Angel, 9.
Y Storm, 156.

fawr o de : ceid te gwan mewn rhai cartrefi cryf ar y Sul—a dim ond hynny. Gartref, maidd, llaeth, llaeth enwyn, cawl, dŵr, dŵr a blawd a glasdwr oedd y diodydd cyffredin ac weithiau ddiod gadarn wedi ei bragu ar yr aelwyd. Oddicartref cwrw oedd y ddiod gyffredin ; dyna'r ddiod gyfleus mewn ffair a marchnad, mewn neithior a gwyl, ac ar y ffordd i'r odynau calch. Dyna hefyd ddiod y cynhaeaf mewn llawer man : a diod yr arwerthiannau ymhobman ; yno fe'i rhennid yn rhad i gymell prynu. Yr oedd y ddiod hefyd yn gryfach nag ydyw heddiw ac yn rhatach. Yr oedd y tafarndai hwythau yn lluosocach nag ydynt yn awr. Yr oedd yn y Ram, pentref na chynhwysai ond rhyw bum neu chwe tŷ i gyd, dri thafarn—y Ram Inn, y Plasnewydd a'r Lock and Key. Pwy na ŵyr am ymddiddan George Borrow â'r tri gwestywr pan ar ei daith drwy Gymru yn 1854 ?

Fe welir felly fod problem y ddiod yn un dra gwahanol i'r hyn ydyw yn awr ac yn gofyn am fesurau gwahanol i ddelio â hi. Dyna efallai ddigon o gyfiawnhad am egnion y Temlwyr Da ac eraill.

I fân-dyddynwr, fel fy nhad, ceid agwedd arbennig ar bwnc y ddiod amser y cynhaeaf. Arni y dibynnai i raddau y math o gynhorthwy y gallasai amaethwyr bychain ei ddisgwyl. Teimlai pawb, bid siwr, drwy'r pentrefi gwledig gyfrifoldeb am ddwyn yr ŷd a'r gwair, gan nad pwy a'u pioedd, i ddiddosrwydd. Yr oedd, fel pe bai, ryw deimlad o gydfeddiant yn bod a phawb yn troi i helpu. · Deuai'r crefftwyr—y gof, y crydd a'r saer—fel y lleill i'r maes. Ond hyn oeddwn am ei ddywedyd—os yr oedd cwrw mewn un lle a dim yn y lle arall gogwyddai rhai at y ddiod.

Rhwng cromfachau, fel pe bai, fe ychwanegaf, ar draul gŵyro tipyn, fod yn ffinio a thyddyn fy nhad un arall, preswylwyr yr hwn a ddarparai gwrw. Fel yr awgrymais, ymrannai trigolion y pentrefi cyfagos yn finteioedd adeg y cynhaeaf ; ond dyna oedd yn brydferth—yr ysbryd cymydogol a ddanghosai pawb. Os mai cwrw neu ddŵr a benderfynai i raddau y lle arfaethedig i fyned iddo ynghyntaf ni wnai hynny wahaniaeth yn y byd i awydd y llafurwyr i gael gwair pawb o dan do a chynaeafaeth dda arno. Daw yn fyw i'm cof ddiwrnod cyfatal a bwriad i gywain y gwair ar dyddynod fy nhad a'i gymydog. Gorffennwyd y gorchwyl ar y tyddyn cyfagos yn gynnar y prynhawn. Â'r hin yn fygythiol dyma'r fintai'n gyfan, heb ei gwahodd, dros y clawdd i geisio sicrhau gwair fy nhad hefyd, heb neb yn gofyn pa bryd y gollyngid na pha faint yr *overtime*—nid oedd bellach na dŵr na diod gadarn yn ymyrru â'r dymuniad i gludo'r gwair yn ddiymdroi i dŷ neu das. Prif gymhelliad y bobl hyn oedd caredigrwydd calon a dealltwriaeth o bwysigrwydd y cynhaeaf. O'r cyferbyniad â'n dyddiau ni ! Yn fy nheithiau mynych drwy'r wlad heddiw gwelaf yn aml gae mawr â'r gwair ar lawr, ac ynddo ryw ddyn neu ddau neu ŵr a

gwraig a phlentyn yn ceisio ei gynaeafu. Beth a all fod yn fwy torcalonnus ?—a miloedd o ddynion diwaith ar gorneli strydoedd ein trefi neu yn y *queue* yn disgwyl am y *dole*. Beth yn fwy gwrthun ?

Dirwest ai peidio, i mi yr oedd rhyw ramant yn y cynhaeaf gwair o'r dydd y deuai'r pladurwyr gyda chodiad yr haul i dorri'r twf ir hyd ddydd ei ddiddosi. Pa sŵn mwy soniarus na'r un o dynnu'r rhip dros fin y bladur neu swish-sh—swish-sh—swish-sh y llafnau dur drwy'r toraeth glas ? Pa *rhythm* fel eiddo'r pladurwyr yn torri'r gwair yn ystodion cyfled ? Pa gymdeithas ddifyrrach na'r llinell hir o wŷr a gwragedd yn troi'r gwair â rhacanau ac yn ymddiddan ym miwsig pêr y glaswellt cras ? Pa olygfa fwy swynol na gwragedd yn dilyn y gambo ddydd y cario yn casglu eu helion gwair i'w ffedogau rhag gwastraffu dim ? Y mae peiriannau wedi lladd rhamant y cynhaeaf gwair ac i fesur wedi difodi'r wedd ddynol iddo a'r ysbryd cymydogol hefyd.

Adolygiadau.

Helyntion Heretic, gan y Parch. William Griffiths, B.D., Ph.D. (Gwasg Gomer, Llandysul. 6ch.).

Wele ddau adolygiad ar y llyfr uchod, y cyntaf gan yr Athro Timothy Lewis, M.A., Aberystwyth, yn y *Tyst*, a'r ail gan yr Athro J. Young Evans, B.A., B.D., yn *Y Cymro*.

Y mae'n anodd i'r annoeth adnabod ei gyfeillion, y mae'n ddengwaith anos, ond odid, i'r doeth wneud. Dewis prin sydd gan yr annoeth, a dichon mai ychydig sy'n chwennych bod yn gyfeillion i'r doeth hefyd, eithr y mae llawer am ymddangos yn gyfeillion.

Pa oedd y gwerinwr pybyr, Jack Glanygors, yn taeru wrth Gymry bach parchus Llundain ganrif neu well yn ôl, nad oedd efe yn " Sosin ", dichon nad oedd Jac yn ystyried ar y pryd mai'r " Sosin " ydoedd yn ymladd ddygnaf dros y rhyddid a garai ei enaid ef. Nid oedd yr un Cymro yn ei oes yn gweld yn oleuach ystyr rhyddid, nac yn ei chwennych yn ddilysach, na Glanygors, ond yr oedd ar Jac gywilydd arddel ei gyfeillion gorau.

Mis i heddiw yr oeddys yn dathlu trydydd Iwbili " Manchester College, Oxford ". Sefydlwyd ef yng nghapel yr Undodiaid, Cross Street, Manchester, dair blynedd ar ôl cyhoeddi Annibyniaeth America, a thair blynedd cyn i'r Bastille syrthio, pan oedd syniadau newydd am ryddid bron a lefeinio'r clamp toes i gyd ; a pha gymdeithas ymladdodd yn ddewrach ac yn lanach am ryddid na'r Undodiaid neu'r Sosiniaid ? a pha gymdeithas gafodd ei chamesbonio'n waeth, a hynny hefyd gan y rhai y mynnai'r Undodiaid ddwyn rhyddid iddynt ? Yr oedd y pethau hyn yn tyrru i'm meddwl wrth ddarllen profiadau Dr. Griffiths yn ei ymdrechion i ehangu rhyddid meddwl y Cymry a garai ei enaid mor angerddol.

Yn Annibyniaeth Cwmllynfell y mae gwreiddiau Dr. Griffiths. Dyfrhawyd y gwreiddiau gan Watcyn Wyn yn ei Academy ; diwylliwyd y blagur gan Vance Smith, William Morgan a David E. Jones yng Ngholeg Caerfyrddin ; ond o dan Dr. Harper, yr " Hebrewr " enwog o Goleg Yale y gwelwyd y blodau'n crynhoi'n ffrwyth ar y canghenau. Wrth ddyfod o dan gyfaredd yr athro mawr hwnnw gwelodd y disgybl craff fyd newydd yn agor o'i flaen ; ac wedi'r weledigaeth, daeth yn ôl i Gymru i rannu ei gynysgaeth fel sacrament i'w genedl.

Ei anturiaeth gyntaf ydoedd taith genhadol am dri mis i Ogledd Cymru, i egluro syniadau'r Undodiaid am Deyrnas Dduw—taith drwy Gaernarfon, Penygroes, Talysarn, Llanberis, Porthmadog, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Bangor, Bethesda, Penmaenmawr, Brymbo a'r Rhos.

Digwyddodd hyn ddeugain mlynedd yn ôl, eithr gellid meddwl weithiau mai portread o Gymru bedwar can mlynedd yn ôl ydyw. Ymladd brwydr fawr yr Undodiaid yr oedd Dr. Griffiths dros ryddid crefyddol a gwladol i werinoedd y byd, ac yr oedd cymaint o angen hynny ar Gymru a'r un wlad ; eithr prin yr oedd gwerin Cymru yn adnabod ei charedigion, ac yn lle coleddu'r cenhadwr fel cyfaill cywir, ei erlid a fynnai llawer. Nid ydym yn amau, ac nid wyf yn tybio bod Dr. Griffiths yn amau ychwaith, nad parch i gredoau a ystyrrid yn gysegredig ganddynt oedd wrth wraidd yr erlid ; eithr pan yw gwlad yn dewis rhoi llyffethair ar feddwl ei goreuon rhag iddynt amau credoau crebachlyd oesoedd hanner effro rhaid i rywrai ddioddef.

Yr wyf i wedi adnabod amryw a fynnai alw eu hunain yn hereticiaid o dro i dro, a rhywrai bach gwenwynllyd yn pwyso pob gronyn o'r anis a'r cwmin oeddynt fynychaf, ond fel arall y mae Dr. Griffiths—y pethau mawr sylfaenol sydd yn bwysig ganddo o'r dechrau i'r diwedd, ac y mae ei gariad hirymarhous yn amlycach fel bo'r erlid yn poethi.

Cofier mai'r rhai sydd heb dyfu mewn gras na meddwl ydyw'r erlidwyr.

Cynonfardd a roisai siars i Dr. Griffiths wrth ei ordeinio'n weinidog, a darlun tlws yw'r darlun a geir o Dr. Griffiths yn cerdded rhwng Cynonfardd lydan a Herber fawr o Bendref, Caernarfon, ar fore Sul " pan oedd ffyddloniaid capeli Caernarfon yn rhybuddio eu brodyr a'u chwiorydd yn y ffydd i gadw ymhell " oddi wrth Dr. Griffiths, " rhag i sawyr ei heresi ddinystriol eu llygru ".

Brwydr ddiorffwys ydyw'r frwydr am ryddid, ac y mae'r cadoedd mor wasgaredig a'r gwrthwynebwyr mor gyfrwys nes ei bod yn anodd gwybod weithiau pwy yw'r cyfaill a phwy y gelyn ; ond nid ydym yn tybio fod mwy o eisiau ymdrechu dros ryddid cyn dymchwelyd y Bastille a chyn torri hir-iau llys halog Lloegr ar war trefedigaethau America nag sydd heddiw, ac oni bydd Undodiaid ac Annibynwyr Prydain ar flaen y cadoedd pwy fydd ?

Pennod ddiddorol iawn yn hanes Cymru ydyw'r bennod a edrydd Dr. Griffiths, a gwna ei darllen les mawr i ben a chalon pob un y mae rhyddid yn gysegredig ganddo, a'r ymdrech am ryddid dilysach fel sacrament yn ei olwg.—[*Y Tyst*].

* * *

Nid yn aml y llwyddodd gweinidog ymadroddus a gwybodus i grynhoi cymaint o'i hanes ei hun, ynghyd â datgan ei reswm am y gobaith sydd ynddo, mewn 28 tudalen o ryddiaith sydd mor llyfn ag ydyw o fachog. Y mae ganddo bedair tudalen o brydyddiaeth ddiweddglo, a dengys nad prin y diwinydd llengar o ddawn yr englynwr a'r telynegydd dadleuol.

Ers blynyddoedd bellach preswylia Dr. Griffiths, ar ôl ymneilltuo o'i fugeiliaethau Undodaidd, yn un o faesdrefi Aberystwyth, a bydd ei ragdraeth ar " Droeon fy Ngyrfa " yn dderbyniol gan hyd yn oed y mwyaf uniongred o'i gyfeillion.

Ar ôl gadael y lofa ym mharthau Cwmllynfell, bu wrth draed tri athro hyglod, Watcyn Wyn yn Cross Inn, Dr. Vance Smith yng Nghaerfyrddin, a Dr. Harper (Hebreigydd bydenwog arall) yn Yale. Diddorol sylwi mai Cynonfardd a draddododd y siars iddo wrth ei urddo'n weinidog Annibynnol yn Plymouth, Pa.

Prif gynnwys y llyfr yw hanes ei " Hynt yn Arfon " yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn 1893, rhyw ddwy flynedd wedi iddo gofleidio Undodiaeth. Ymddengys nad dylanwad Dr. Vance Smith (y gŵr y bu cymaint cythrwfl ynglŷn ag ef ymysg esgobion Eglwys Loegr yn 1870, oblegid iddo, ac yntau yn Undodwr, dderbyn y Cymun gyda'r aelodau eraill o Gwmpeini Adolygwyr y cyfieithiad Saesneg o'r Hen Destament) a barodd iddo gymryd y cam hwn, ond yr argraff a adawyd ar ei feddwl gan ddysgeidiaeth Bedyddiwr galluog o blith athrawon Yale.

Yn ei ymgyrch anturiaethus i ledaenu gwybodaeth o egwyddorion Undodiaeth yng Ngogledd Cymru, darlithiai ar dri phwnc, Tadolaeth Duw, Y Beibl, a Daliadau Undodiaid.

Bydd y pamffledyn destlus a darllenadwy hwn, beth bynnag a feddylir am ogwydd ei athrawiaethau, yn help inni fesur cynnydd ein cenhedlaeth ni " mewn caru'n cyd-Gristnogion ", ys dywedai Edmwnd Prys yn nhrosiad Salm xv, heb sôn am loywi'n Cymraeg uwchben cryn ddrama gyffrous o hunan-gofiant a dyddiadur trylen o ymryson tafodau.—[*Y Cymro.*]

Heddiw : Cylchgrawn Misol. 6ch. Gwasg Heddiw, 40, Swiss Avenue, Watford, Herts, Lloegr.

Daeth i'r Swyddfa i'w hadolygu rifynnau 3 a 4 (Hydref a Thachwedd) o'r cylchgronau Cymraeg newydd uchod. Ni wn i pwy ydyw'r bobl anturiaethus sydd a'u ffydd yn ddigon cryf yn nyfodol yr iaith Gymraeg i ddwyn cyclhgrawn newydd allan ar hyn o bryd, ond dymunaf bob llwyddiant i'r fenter. Cylchgrawn hynod o ddarllenadwy ydyw *Heddiw*, a'r ysgrifau yn eithriadol o fyr, yn ddigon byr, yn sicr i beidio trethu amynedd neb. Ceir rhywbeth ar bob agwedd o fywyd y wlad *heddiw*. Cynhwysa rhifyn Tachwedd ysgrifau ar " Gwyddonwyr Cymru ", a " Dyddiau'r Yswain ", a darn adrodd hynod o ddigri' gan Idwal Jones, heblaw nodiadau golygyddol eithaf diddorol ac adolygiadau campus. Yn rhifyn Hydref caed ysgrif (yr ail mewn cyfres gan gynrychiolwyr gwahanol enwadau) gan y Parch. D. Tecwyn Evans ar " Ddyfodol Crefydd yng Nghymru ".

Cylchgrawn bach *bright*, ys dywed y Sais, ond nid mor *bright* ag i fod yn arwynebol. Pryner a mwynhaer ef.—T.L.J.

Atgofion.

Clywais fod rhyw siarad wedi bod y llynedd rhwng Undodiaid Sir Aberteifi a Sir Forgannwg ynghylch cynnal Cymanfa Ganu undebol eleni yn Abertawe, ond er siomedigaeth i lawer, ni ddaeth y cynllun i ben. Cofiaf i mi fod mewn dwy o'r cyfryw. Nid oeddwn ond croten fach y tro cyntaf. Cafodd rhyw bump neu chwech ohonom ni blant Capel y Cribyn ar ôl hir berswadio, ganiatâd ein rhieni i fynd i'r Gymanfa, a mawr oedd y disgwyl a'r cyffro, gan nad oedd yr un ohonom wedi bod o olwg y mwg erioed. Swniai taith i Abertawe mor anturiaethus i ni a gwibdaith i Timbuctŵ. Yr oeddem wedi cael addewid am gambo i'n cludo i orsaf Llanybyther, a'n hôl adref. Dyna ddull modern y wlad o deithio yr amser hynny. Nid oedd y ' Bws ' wedi ei eni—Bws y wlad, beth bynnag.

Bu disgwyl mawr am y diwrnod, a phan wawriodd, yr oeddwn i yn rhy gyffrous i fwyta un tamaid o frecwast. Edrychwn bob munud a oedd y gambo yn dod, gan fawr obeithio nad oedd dim wedi digwydd iddi. O'r diwedd, dyna hi yn dod i'r golwg ar y tro, a dwy astell gref wedi eu hoelio yn groes iddi fel seddau. Cawsom ein ffitio i fewn fel " sardines " mewn tyn, ond yr oeddem mor fodlongar a phe baem yn y Rolls-Royce mwyaf esmwyth.

Ychydig gofiaf am y Gymanfa, ond cofiaf yr awr ginio yn dda. Yr oeddem ni'r cwmni bach yn cadw gyda'n gilydd trwy'r dydd, ni wn pa un ai ni oedd yn gwrthod cwmni hŷn na ni, neu ynte'r

cwmni hŷn a'n gwrthodent ni. Tebig iawn nad oedd neb yn dewis boddran â rhyw blant fel ni.

Gyda therfyn cyfarfod y bore, dylifai'r dyrfa allan o'r Albert Hall. Pob un a'i fryd ar yr un neges, sef chwilio am ginio. Dilynem ninnau o hirbell. Nid oes gennyf yr un syniad i ba le yr aethom, ond cofiaf ein bod yn eistedd wrth rhyw ford gyda'n gilydd. Cyn hir, dyna waitress yn dod atom ac yn gofyn mewn Seisneg slic ofnadwy—" Tea and cake ? " Nid oedd yr un ohonom ni wedi clywed Seisnes yn siarad erioed ac y mae byd o wahaniaeth rhwng Sais yn siarad Seisneg a Chymro o ganol y wlad. Dywedodd un ohonom " Yes ". Pe buasai wedi dweyd " Tea and Poison " buasem yn siwr o fod wedi dweyd " Yes ", oblegid pe dywedem " No ", byddai'n rhaid i ni egluro beth oedd ein dewisiad, a thipyn o dreth fyddai hynny, os yn bosibl o gwbl.

Cyn hir dyna'r waitress yn dod â'r tê a llond plat o fara ymenyn a dysglaid o " cake " i'r bwrdd. Edrychai'r cwmni bach ar ei gilydd yn syn a siomedig. Yr oeddem ni wedi deall pan ddywedodd hi " cike " mor slic, mae cig oedd hi'n feddwl. Ni feddyliais i erioed y buasai neb yn cynnyg *cake* i fi i ginio. Pwy oedd hi'n feddwl allasai ganu ar ôl y fath bryd.

Ar ôl mynd allan o'r café, aethom i edrych ar y siopau. Cyn hir daethom at siop ffrwythau. Aeth un o'r cwmni i fewn i brynu oraens. Wedi dod allan dechreuodd fwyta un ohonynt, a thaflodd y croen i ffwrdd. Yn union dyna rhyw ddyn, cyffredin iawn o ran golwg, yn dod ymlaen atom ac yn dweyd mewn llais awdurdodol iawn " Peidiwch chwi a thaflu croen oranges ar y pavement, neu fe gewch eich cosbi, gall rhywun sangu arno a chwympo ".

Gan nad pwy oedd y dyn, fe'n dychrynodd ni'n enbyd, ac meddai un o'r cwmni " Dyna le yw Abertawe, chawn ni ddim troi yma ". Meddyliwn innau gymaint mwy hapus y byddwn ar ddôl Llysfaen Uchaf ymysg y brwyn a'r tafol, heb neb i aflonyddu ar fy rhyddid ond ambell grychydd hirgoes yn disgyn ar ro'r afon Grannell, ac yn brasgamu i'r dŵr i chwilio am bysgodyn erbyn cinio, neu frân yn hedfan uwch fy mhen gan grawcian ar ei thaith i'w nyth yng nghoed tewfrig gallt y Neuadd Fawr, nag ar yr heol orlawn honno.

Ni chofiaf ddim am y daith adref, tebyg fy mod yn rhy gysglyd erbyn hynny i gymryd llawer o sylw o ddim.

Tybed a oes rhywun arall o'r cwmni yn cofio am y daith.

Ar adeg yr ail Gymanfa Undebol y bum ynddi, yr oeddwn yn Llanbedr yn dysgu crefft—yn treio dysgu beth bynnag, ac yn aros gyda modryb i mi.

Tua thri o'r gloch bore'r Gymanfa, dihunwyd fi'n ddiseremoni gan drwst taran dychrynllyd. Cafwyd storom enbyd am ysbaid, ond ciliodd cyn amser cychwyn i'r orsaf, ond deuai'r glaw i lawr yn ffrydiau. Wrth edrych ar y glaw yn disgyn mor drwm, gofynnwn i mi fy hun " A oes rhaid i mi fynd heddiw ? " Nid

oeddwn mor gyffrous ynghylch y daith y tro hwn a'r tro cyntaf, ac nid oedd cymaint o chwant arnaf weled Abertawe. Er hynny, ni allwn fwyta fawr o frecwast cyn cychwyn. Dywedai fy modryb y byddai'n well i mi fynd â rhywbeth gennyf i'w fwyta yn y trên ; ond protestiwn i yn gryf yn erbyn hyn, gan na theimlwn chwant un math o fwyd ar y pryd. Er gwaethaf fy ngwrthwynebiad, paciodd fy modryb nifer o grempogau (pancakes) mewn bag papur, a bu raid i mi eu dwyn gennyf.

Nid oedd gennyf yr un cwmni i fynd i'r orsaf, ac nid oedd neb i'w weled ar yr heol pan gerddwn trwy High Street, eithr disgynnai'r glaw yn genllif, a thasgai i fyny drachefn, nes gwneud teithio'n bur annymunol. Wrth droi i lawr heibio Siop Gornel i College Street, sylwn fod y bag papur wedi gwlychu, a'i fod yn dechreu malurio, ac ymhen ychydig funudau dyna'r bag yn hollti a'r pancakes yn cwympo'n bendramwnwgl y tu allan i'r palmant, lle'r oedd afon gref yn rhedeg oblegid y glaw, a dyna lle'r oeddynt yn nofio fel *flat-fish* yn yr afon, ac i lawr a hwy at waelod College Street o fy mlaen i.

Perodd y ddamwain i mi deimlo fy mod dipyn yn llibin, a'r peth cyntaf a wnes oedd edrych o gwmpas i gael gweld a oedd rhywun wedi gweld yr annibendod.

Yr oedd yna un hen wag yn ysbio rownd y cornel, ac nid ydyw wedi anghofio'r digwyddiad hyd heddiw. Adroddai'r stori wrth berthynas i mi yn Llanbedr yr haf diwethaf.

Rwy'n siwr na welodd yr hen wag braffach pysgod yn nofio'r Teifi erioed na'r *flat-fish* nofient yn afon College Street y bore hwnnw.

Rhyfedd fel y glyna troion gwan yn y cof. Ni chofiaf fawr am y Gymanfa, ond cofiaf i'r glaw beidio cyn hir, ac fod yr hîn wedi troi allan yn braf, ac yn ôl fel y siaradai'r bobl, cafwyd Cymanfa dda.

A. Rees.

Priodasau.

Medi 26, yng Nghapel Alltwen, BRINLEY JONES, Trebanos a CATHERINE WILLIAMS, Alltwen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. J. Rees, B.A. (Gweinidog) a J. D. Jones, B.A., B.D.

Ym Mhantydefaid ar Hydref 17 gan y Parch. S. Evans Bowen unwyd mewn priodas EVAN THOMAS EVANS, Tŷ'r Capel, Capel-y-Cwm â ANNA DAVIES, Gwylfa-fach, Pantydefaid.

Tachwedd 5 ym Mrondeifi gan y Gweinidog (yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Mr. Jones, Capel Nonni a Mr. Thomas, Gwernogle) ac o flaen y Cofrestrydd Capt. Enoch Davies unwyd mewn glân briodas E. MYRDDIN EVANS, Castle View, Llanllwni a Miss ROSA JONES, Drefach House, Llanbedr. Bendith y nef a fo ar yr uniad hapus.

Marwgof.

GYDA blinder calon cofnodir gennym farwolaeth Mr. GWILYM GRIFFITHS, 3, Park Lane, Trecynon, Bu farw dydd Mercher, Tachwedd 4 yn 65 oed. Cafodd iechyd da ar hyd y blynyddoedd, ond ar ddechreu'r flwyddyn hon tarawyd ef a nychdod a gwendid mawr, er hynny parhaodd gyda'i waith hyd at ganol haf. Cryfhaodd ychydig ar ôl hynny a gobeithiem i gyd ei fod ar wellhad, ond ymaflodd y nychdod ynddo drachefn a gwelwyd pob gobaith am adferiad iddo yn diflannu. Ni ddaeth i feddwl neb o honom fod y diwedd mor agos. Bu mewn cysylltiad a gweithfeydd Syr D. R. Llewellyn yn agos i 20 mlynedd ac efe oedd ysgrifennydd pyllau glo Cwm Nedd perthynol i'r A.A.C. Hanai o deulu enwog. Ei dadcu ydoedd William Williams (Carw Coch) sylfaenydd Eisteddfodau'r Stag, ac etifeddodd Mr. Griffiths gryn lawer o'r un brwdfrydedd dros bethau cymdeithasol, dyngarol a chenedlaethol. Yr oedd yn aiddgar dros bopeth perthynol i Gymru ac yn hoff drosben o'r Hen Iaith. Yr oedd yn ddiacon ers blynyddoedd a bu yn ysgrifennydd eglwys yr Hen Dy Cwrdd am 36 mlynedd ac nid oedd neb yn fwy ffyddlon nag ef. Ni chollai wasanaeth ond dan orfod ac agos iawn i'w galon oedd yr hen achos. Yr oedd yn weithiwr gonest, yn gymwynaswr parod yn gyfaill trwyadl. Mae'r golled ar ei ôl yn enfawr ac anodd fydd y gwaith o lanw'r bwlch. Estynnwn i Mrs. Griffiths ein cydymdeimlad dyfnaf yn ei hiraeth a'i cholled mawr, ac hefyd i'w chwaer ac i'w frodyr. Claddwyd dydd Sadwrn, Tachwedd 7 yn y gladdfa gyhoeddus a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis a Cynog Williams (B).

Nodion yr Eglwysi.

PANTYDEFAID.—Mae Eglwys Pantydefaid a'r cylch yn llawenychu yn nyrchafiad Mr. Josiah Jones, Y.H., C.S. i'r swydd anrhydeddus o Uchel-Sirydd yn Sir Aberteifi am y flwyddyn nesaf. Dymunwn ei longyfarch yn wresog.

GRAIG, LLANDYSUL.—Nos Wener y 23 o Hydref cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn y lle uchod. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Daeth cynulliad lluosog ynghyd a chafwyd pregeth rhagorol ganddo. Yr oedd ei syniadau yn amserol ac yn adeiladol. Diolchwyd i Mr. Williams ar ran y gynulleidfa gan Mr. Thomas, Spring Gardens.

BRONDEIFI.—Ar brynhawn Sul, Tachwedd 15 cyflwynodd y Gweinidog ar ran y gynulleidfa lestri te arian i Mrs. Myrddin Evans ar ei phriodas. Yr oedd " Rosa " wedi bod yn organyddes ffyddlon ar hyd y blynyddoedd, yn fawr ei pharch ac yn annwyl gan bawb. Nid oedd un trafferth yn ormod iddi a Brondeifi oedd ar ei meddwl ac yn ei chalon. Yr unig dristwch oedd ein bod yn ei cholli—am dro o leiaf. Y mae yn ymadael gyda dymuniadau goreu gweinidog a chynulleidfa am fywyd gwyn a hapus.

CRIBYN.—Hydref 16 cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch, y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Brondeifi yn pregethu. Caed cynhulliad a gwasanaeth da. ———Cychwynnodd Urdd y Benywod eleni trwy gael gwledd o de. Rhoddwyd y te gan Mrs. Davies, Fronddu a Miss Thomas, Ffynnon-oer. Diolchodd y Gweinidog i'r ddwy am eu caredigrwydd. Ar y 19 o Dachwedd traddododd y Gweinidog ddarlith ar Ddaniel Ddu. Diolchodd Miss Evans, Cwrtnewydd i Mr. Jones am ei ddarlith ag oedd o dipyn o ddiddordeb iddynt hwy am mai un o Cribyn oedd y Bardd.

CAPELYGROES.—Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch ar Hydref 21 a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen yn pregethu. Caed cynulliad a gwasanaeth da.———Ar Hydref 31 cychwynnodd Urdd y Benywod eu tymor trwy gael gwledd o de, a chyfarfod bach byr gan y plant. Rhoddwyd y te eleni gan Mrs. Evans, Felinban, a chynhygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gan Mrs. Jones, Blaencwrt ac eiliwyd gan Miss Thomas, Brynderw. ——Yr wythnos ddilynol

cafwyd darlith ddiddorol gan y Gweinidog ar y bardd enwog Daniel Ddu o Geredigion. Ar ran y benywod diolchodd Mrs. Jones am y ddarlith ac eiliwyd gan Mrs. Evans, Felinban.———Tachwedd 20 cynhaliwyd te a chyfarfod blynyddol gan yr Ysgol Sul. Cafwyd noson hapus iawn gyda'n gilydd. Diolchodd y gweinidog i bawb oedd yn bresennol, a'r rhai oedd wedi bod yn gweithio gyda'r te, ac i'r plant am eu gwaith da.

BRONDEIFI.—Breuddwyd llawer ohonom ar hyd y blynyddoedd oedd cael Pipe Organ i Frondeifi. Ni wyddem pam ond credem y dylasem ei chael. Dyna freuddwyd yr hen dadau hefyd cyn iddynt ein temtio drwy godi ystafell ar ei chyfair pan godwyd y capel newydd. Lawer tro ar ddydd oer o aeaf y melldithiais eu breuddwyd, a gwn fod llawer pregethwr wedi teimlo fod ei lais ar goll yn y gwagle. Nid oedd dim amdani ond breuddwydio breuddwydion a gweld gweledigaethau. Ofnem na ddoi'r breuddwydion i ben, yn ein dyddiau ni. Yr oedd yr amseroedd yn wael a'r arian yn brin, ond ddiwedd Mehefin neu ddechreu Gorffennaf aeth yr hen organ ar stop yn ddisymwth. Ni wn a wyddai ei bod wedi goroesi ei chroeso a'i defnyddioldeb. Nid oedd dim amdani ond ail feddwl yr hen feddyliau ac ailfreuddwydio yr hen freuddwydion, a rhyw brynhawn Sul gosodwyd y peth ger bron. Yr oem bawb yn ofni a phetruso,—petruso mynd i ddyled—petruso mentro. Gadawyd y peth heb ei benderfynu am wythnos. Credem y dylasem deimlo ein ffordd, ond cyn mynd ddeucan llath o'r capel yr oedd y peth wedi'i benderfynu drwy addewidion o ddegau i wneud canpunt. Ofnem fod y dechreu yn rhy dda. Nid oedd. Addawai pobun fwy nag a ddylasai. Gellir galw'r organ newydd yn aberth cariad cynulleidfa. Lle disgwylid punt neu ddwy caid deg, nid am fod yno ddigonedd ond am fod y galon yn drech na'r boced. Ni welais hi felly o'r blaen. Gwnaeth pawb yn well na'r disgwyl. Erbyn mis Hydref yr oedd yr organ newydd yn ei lle—yn addurn i'r capel, yn help anghyffredin i gael naws addoli i'r gwasanaeth, ac yn braw o beth a fedr cynulleidfa wneud o gyd-dynnu. It never rains but it pours, meddai'r Sais. Nid oedd gennym ond gas i oleuo'r capel a rhaid oedd cael trydan i yrru'r organ. Ni cheid mo'r trydan drosodd onis defnyddid i oleuo'r capel. Nid oedd dim amdani ond mynd yn ddyfnach iddi a mentro rhyw hanner cant arall mwy neu lai. Y mae'r cyfan weithian yn ei le, y capel wedi'i oleuo (a'i wresogi flwyddyn neu ddwy yn ôl, a chostiodd hynny gan punt) ; y mae'r organ newydd yn ei lle, a'r gynulleidfa yn fodlon aberthu hyd yr eithaf er ei chael. Dwn i ddim a ŵyr yr hen dadau a'r hen famau yr ochr draw. Os gwyddant credaf fod ambell haleliwia yn esgyn i fyny yn y nef o weld ein hymdrech a'n haberth. Y mae'r antur yn costi Pedwar can punt, a gobeithiwn erbyn y Nadolig y medrwn ddweyd "Gorffennwyd". Nid antur fach codi pedwar can punt yr amser hwn heb apelio at bawb a phobun. Credaf fod y dref yn synnu o'n gweld yn gwneud cystal. Mater i ni yw yr organ. Y ni a'i piau a gobeithio y bydd i'w miwsig persain arwain ein meddyliau a'n calonnau adref at Dduw. Y mae un flynedd ar hugain wedi mynd er i Frondeifi fentro rhoi galwad i lanc dibrofiad. Erbyn hyn y mae yntau yn barod i ddweyd, "Mae fy nyddiau bron a darfod". Y mae un flynedd ar hugain yn amser hir ac yn dafell fawr o oes dyn. Pe bai yma newid hwyrach y buasai gwell graen ar bethau. I'r neb a gred felly, caiff ei gyfleu ar fyr. Rhoes R. C. Jones gapel hardd i ni. Cawsom ninnau wres ac organ yma. Gobeithio y caiff y gweinidog nesaf gyfleu i bregethu'r efengyl heb fod casglu yn ei boeni. Diolchaf o galon i'r gynulleidfa am bob croeso a chyfran, a hefyd i blant Brondeifi ar wasgar. Y mae'r hen dân yn dal ynghynn ar yr allor. Hwyrach yfory y bydd yma weinidog newydd yn gwneud gwell gwaith nag y medraf i. Y mae iddo groeso, ac ni ddymuna neb yn well iddo na'r un a geisiodd yn ei ffordd ei hun gadw'r gannwyll ynghynn mewn cyfnod digon ffwdanus a difater.

[*Oherwydd diffyg gofod bu raid cadw rhai "Nodion" hyd y rhifyn nesaf.*]

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. Mc LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.



Cecil Jones,

F.B.O.A.,
F.S.M.C.,
F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.